# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2015** |
| Amser: | **09.00 – 10.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2602**

## Cofnodion Cryno:
MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Matthew Mortlock**<br>**Huw Vaughan Thomas** |
| Tystion: | **James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru**<br>**Gareth Morgan, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Leanne Hatcher (Ail Clerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Jocelyn Davies, a etholwyd i'r Pwyllgor i fynd yn lle Alun Ffred Jones. Diolchodd y Cadeirydd i Alun Ffred Jones am ei gyfraniadau i'r Pwyllgor.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

## 3 Gwasanaethau awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth bellach gan James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter a Thechnoleg, a Gareth Morgan, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi, ill dau o Lywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd James Price y byddai'n gwneud y canlynol:

- cadarnhau'r dyddiad y penderfynwyd ail-dendro'r Gwasanaeth Awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn; a phryd cafodd Arup ei gomisiynu i gefnogi'r broses ail-dendro;
- rhoi gwybodaeth ynghylch profiad Arup o ran darparu cyngor yn y maes ym Mhrydain a pham mai Arup yn benodol a ddewiswyd;
- rhoi nodyn yn cadarnhau i ba raddau yr oedd y cynnydd o 15% yn archebion gwasanaethau'r llynedd oherwydd y strategaeth farchnata newydd yn uniongyrchol a sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwerthuso'r strategaeth hon; a
- rhannu adroddiad adolygedig Arup pan fydd ar gael.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gwasanaethau awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Glastir: Trafod yr ymatebion

6.1 Trafododd y Pwyllgor ymatebion Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, ac ymatebion Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr.